# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 19 Hydref 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(24)

**1. Cwestiynau Cyllid i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty**

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 1 a 5 eu grwpio.

**14.17**
**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.

**15.02**
**Datganiad gan y Llywydd**

Cyhoeddodd y Llywydd fod Ken Skates wedi ennill balot yr Aelodau i gyflwyno cynigon ar gyfer deddfwriaeth. Caiff Ken Skates, felly, geisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil arfaethedig Aelod ynghylch Parhad o Ofal i Fywyd fel Oedolyn, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91.

**15.02**
**3. Dadl gan Aelod unigol, o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)**

**NNDM4825**

**Christine Chapman (Cwm Cynon)**
**Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**
**Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru)**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i'r Cynulliad ei hystyried a fyddai'n cael gwared â'r gallu i ddefnyddio 'cosb gyfreithlon' fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiad o ymosod ar blentyn.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 13 | 15 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**16.05**
**4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4834 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r manteision pellgyrhaeddol posibl i Gymru drwy gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr;

2. Yn gresynu'n fawr nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi strategaeth ar waith i geisio codi proffil Cymru yn ystod Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fod yn fwy uchelgeisiol, rhagweithiol a thryloyw wrth geisio denu'r digwyddiadau chwaraeon mwyaf i Gymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 36 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt 2 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn llongyfarch y gwaith a wnaed gan gynghorau Caerdydd a Chasnewydd wrth ddenu a chefnogi Cyfres y Lludw a Chwpan Ryder yn eu tro.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 10 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu’n fawr bod cyflwr cyllid cyhoeddus ar hyn o bryd yn rhwystro Llywodraeth Cymru rhag cyllido strategaeth sydd â’r nod o godi proffil Cymru yn ystod Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 42 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 2 a rhoi’r canlynol yn ei le:

Yn nodi’r ffaith y caiff proffil Cymru dramor ei wella yn sgil profiadau cadarnhaol unigolion a thimau y gwledydd hynny sydd wedi dewis hyfforddi yng Nghymru cyn Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012; ac

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 0 | 16 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gan fod gwelliant 3 wedi’i dderbyn, cafodd gwelliant 4 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 5 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 3 a rhoi’r canlynol yn ei le:

Yn cydnabod llwyddiant Cymru gyfan yn cynnal Cwpan Ryder 2010 a’r manteision economaidd sydd wedi dod yn ei sgil.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 0 | 16 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM4834 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi’r manteision pellgyrhaeddol posibl i Gymru drwy gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr;

2. Yn llongyfarch y gwaith a wnaed gan gynghorau Caerdydd a Chasnewydd wrth ddenu a chefnogi Cyfres y Lludw a Chwpan Ryder yn eu tro.

3. Yn nodi’r ffaith y caiff proffil Cymru dramor ei wella yn sgil profiadau cadarnhaol unigolion a thimau y gwledydd hynny sydd wedi dewis hyfforddi yng Nghymru cyn Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012; ac

4. Yn cydnabod llwyddiant Cymru gyfan yn cynnal Cwpan Ryder 2010 a’r manteision economaidd sydd wedi dod yn ei sgil.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 0 | 16 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

**17.05**
**5. Dadl Plaid Cymru**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4833 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth:

a) dirywiad sydyn darpariaeth cyfryngau lleol ac effaith hynny ar yr adroddiadau ar fywyd cyhoeddus ac ar wleidyddiaeth yng Nghymru; a

b) yr argyfwng cyllido yn y diwydiant darlledu.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) chwilio am atebion i roi sylw i’r bwlch democrataidd a achosir gan hyn; a

b) ymdrechu’n frwd i ddylanwadu ar y Bil Cyrff Cyhoeddus fel bo dyfodol S4C yn cael ei ddiogelu.

Gellir gweld y Bil Cyrff Cyhoeddus drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://services.parliament.uk/bills/2010-11/publicbodieshl.html - *(Saesneg yn unig)*

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 12 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**18.08**
**Cyfnod Pleidleisio**

**18.11**
**6. Dadl Fer**

**NDM4832 Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):**

Beth yw Dwy Awr er mwyn Dysgu Plentyn i Achub Bywyd?

Daeth y cyfarfod i ben am 18.33.

**Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 Dydd Mawrth, 1 Tachwedd 2011**